O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2017 Rhif 1332 (Cy. 303)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Y Gerbytffordd tua'r Dwyrain rhwng Cyffordd 23 (Llanddulas) a Chyffordd 24 (Cyfnewidfa'r Faenol), Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *29 Rhagfyr 2017* |
| *Yn dod i rym* | *8 Ionawr 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Caer i Fangor yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 8 Ionawr 2018 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Y Gerbytffordd tua'r Dwyrain rhwng Cyffordd 23 (Llanddulas) a Chyffordd 24 (Cyfnewidfa'r Faenol), Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2017.

---

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 ar 8 Ionawr 2018 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cerbytffordd tua'r dwyrain cefnffordd Caer i Fangor yr A55 sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 23 (Llanddulas) hyd at ganolbwynt Cyffordd 24 (Cyfnewidfa'r Faenol) ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o'r gefnffordd.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic pedal gael ei reidio, ar y darn o'r gefnffordd.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o'r gefnffordd.

**Cymhwyso**

**6.** Ni fydd y gwaharddiad yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 29 Rhagfyr 2017

*Nina Ley*
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru